**CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED , DYDD LLUN 24ain MAI, 2021.**

**PRESENNOL**

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. Arwel Ll. Jones , Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin, Cyng. John Owen, Cyng Anwen Jones, Delyth Algieri (clerc)

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Dylan Jones, Cyng Austin Roberts,.

**CADARNHAU COFNODION Y BLYNYDDOL 2019**

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol yn 2019(oherwydd ni chynhaliwyd cyfarfod blynyddol yn mis Mai 2020 oherwydd amgylchiadau Covid 19).

**PENODI CADEIRYDD**

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi dwylo i benodi Cyng. Arwel Lloyd Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn 2021/22. Diolchwyd i Gyng. Eifion Williams am ei wasaneth yn y gadair.

**PENODI IS-GADEIRYDD**

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi eu dwylo i benodi'r Cyng. John Owen yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2021/22.

**PENODI IS-BWYLLGOR AELODAU LLWYBR CYHOEDDUS**

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi dwylo i benodi'r canlynol ar yr Is-bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus
Cyng. Alun Morris
Cyng. Nerys Dosbson
Cyng. John Owen
Cyng. Eifion Williams
Cyng .Anwen Jones

**CYNRYCHIOLYDD O'R CYNGOR CYMUNED AR GYFARFODYDD A PHWYLLGORAU LLYWODRAETHWYR YSGOL GYNRADD LLANDDOGED**

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi dwylo i Cynghorydd Anwen Jones i gynrychiolydd y cyngor Cymuned ar gyfarfodydd Corff Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanddoged.

**COD YMDDYGIAD**

Cadarnhaodd aelodau'r Cyngor y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n nodi safonau cywir o ymddygiad a ddisgwylir gan gynghorwyr ac maent i gyd yn cytuno i gydymffurfio â'r Cod fel unigolion.

**COFRESTR BUDDIANNAU**

Cwblhawyd aelodau'r Cyngor y gofrestr buddiannau am y flwyddyn 2021/22.

Arwyddwyd (Cadeirydd) ………………………………………… Dyddiad …………………………………